



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

## Sefydlu gwasanaeth gwasanaeth cydymaith gwirfoddol

### Trosolwg o'r Gwasanaeth

Fel rhan o brosiect Gofal Diwedd Oes Helplu, gwnaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sefydlu Gwasanaeth Cydymaith Gwirfoddol peilot ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal diwedd oes (pobl y credir eu bod ar flwyddyn olaf eu bywydau) o fewn ein Hysbytai Cymunedol. Roedd y gwasanaeth hefyd ar gael i'r sawl ar ddiwedd ei oes a'i berthnasau/frindiau o fewn yr ysbytai cymunedol. Bu'r gwasanaeth peilot ar gael i atgyfeirio ato am chwe mis o fis Rhagfyr 2020.

Roedd y cymorth a gynigiwyd gan y gwirfoddolwr yn seiliedig ar fodel cwmniaeth, gyda'r gwirfoddolwr yn ymddwyn fel rhywun i siarad ag ef a allai gynnig llais cyfeillgar. Cafodd yr holl wirfoddolwyr o fewn y gwasanaeth sesiwn gynefino, a oedd yn cynnwys pecyn o hyfforddiant pwrpasol a fyddai'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt allu cefnogi pobl drwy ofal diwedd oes.

Yn dilyn atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cydymaith Gwirfoddol, byddai pob unigolyn yn cael ei baru â gwirfoddolwyr â hyfforddiant priodol, a fyddai wedyn yn gallu cysylltu a rhoi cymorth, a'r cymorth hwnnw ar gael yn barhaus pe bai angen, ac yn gallu rhoi cymorth i berthnasau/frindiau ar ôl y brofedigaeth. Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 a oedd yn eu lle yn ystod y prosiect peilot, darparwyd y cymorth naill ai ar ffurf galwad ffôn neu alwad fideo.

### Egwyddorion y Gwasanaeth

#### Prif egwyddorion y gwasanaeth oedd:

- 1. Rhoi cymorth i gleifion / perthnasau / frindiau a oedd yn derbyn gofal diwedd oes, sy'n cynnwys:**

- Seibiant o fod wrth erchwyn y gwely'n gyson, ynghyd â chyfeirio at Ofal Ysbrydol, cymorth ar ôl Profedigaeth ac ati
- Empathi a bod yn dosturiol
- Sylweddoli a deall y gall Cymdeithion Gwirfoddol fod yn adnodd pwysig mewn gofal diwedd oes a bod eu cymorth a'u hymrwymiad i'r rôl yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan bawb

## **2. Hybu Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, sy'n cynnwys:**

- Gweld y claf fel unigolyn a sicrhau ei fod yn cael gofal sy'n ystyried ei lesiant ac yn ei wneud mor gysurus â phosibl
- Sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu a'i gysylltu â chymorth cymunedol
- Datblygu diwylliant o welliant parhaus
- Mae mynd ati'n weithredol i gynnwys adborth gwirfoddolwyr, staff a defnyddwyr mewn datblygiadau i'r gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn datblygu drwy ddysgu a phrofiadau'r rheini sydd agosaf ato
- Cydnabod bod cynnwys Cymdeithion Gwirfoddol yn effeithiol yn gwella'u profiad ac yn cynyddu'r ymdeimlad eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, sy'n cynnal eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i'w rôl

## **3. Ymwreiddio arferion er mwyn cofnodi'r effaith, sy'n cynnwys:**

- Sicrhau dealltwriaeth lwyr o effaith y gwasanaeth, a defnyddio adborth i ddatblygu'r gwasanaeth
- Mesur lefelau boddhad staff, gwirfoddolwyr, cleifion, ffrindiau a theuluoedd, sy'n darparu adborth gwerthfawr ar gyfer llywio gwelliannau ansawdd
- Mae data perfformiad, fel nifer yr oriau gwirfoddoli a nifer y cleifion a gefnogir, yn rhoi cyd-destun i'r adborth
- Bydd cofnodi'r wybodaeth hon yn cefnogi achos busnes ar gyfer adnoddau i barhau â'r gwasanaeth a'i ehangu

## **Prif Ganfyddiadau**

- Cafodd Covid-19 effaith ddofn ar fwriadau cydnabyddedig y prosiect. O ganlyniad i'r canllawiau cenedlaethol, cafodd gwirfoddolwyr wyneb yn wyneb eu tynnu allan o bob ward ar ddechrau'r pandemig a bu staff o dan bwysau enfawr yn addasu i'r ffyrdd newydd o weithio o dan gyfyngiadau digyffelyb

- O ganlyniad i'r peilot, sylweddolodd y Bwrdd Iechyd y gwerth y mae gwirfoddolwyr yn eu chwarae mewn dyletswyddau wyneb yn wyneb ar wardiau, nid yn unig i gynorthwyo cleifion, ond i gynorthwyo teuluoedd a'n gweithlu ni hefyd. O ganlyniad, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd y cais i ailgyflwyno gwirfoddolwyr wyneb yn wyneb ym mis Hydref 2021
- Yn ystod y prosiect, gwnaeth y 10 Cydymaith Gwirfoddol a gafodd eu recriwtio a'u hyfforddi yn y prosiect peilot hwn ostwng i 3. Y rheswm pennaf dros hyn oedd y diffyg atgyfeiriadau a oedd yn dod drwyddo, a oedd o ganlyniad uniongyrchol i'r heriau o ran y pwysau ar wasanaethau, gan gynnwys capasiti staff ac adnoddau, a phwysau'r gaeaf a oedd yn effeithio ar allu aelodau allweddol o'r grŵp llywio i ymhél yn llwyr â'r prosiect
- Roedd newid y gwasanaeth i un rhithwir yn bosibl ar bapur, ond mewn realiti, ni lwyddodd. Yn ei hanfod, roedd angen i'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr ymgysylltu'n dda er mwyn gallu cyflwyno'r gwasanaeth i'r wardiau'n uniongyrchol ac integreiddio/hysbysu'r gweithlu ehangach yn y prosiect peilot. Amlygwyd hyn ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2021, pan wnaeth un o wardiau ein Hysbyty Cymunedol wahodd y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr i ymweld â'r ward yn rheolaidd i dderbyn atgyfeiriadau. Sylwer y cadwyd at yr holl bolisiau ynghylch Covid-19 yn ystod ymweliadau ward
- Mae'r holl reolwyr ward ac aelodau'r grŵp llywio wedi pwysleisio pwysigrwydd cysylltiad wyneb yn wyneb fel rhan o'r gwasanaeth

## **Sylw gan Gydymaith Gwirfoddol – Mary**

*'Roeddwn i'n falch iawn o allu gwirfoddoli ar gyfer y prosiect ac yn gyffrous i'w weld yn dechrau. Roeddwn i'n credu bod y broses recriwtio a'r hyfforddiant wedi'u gwneud yn dda iawn, a chawson ni ein trin fel tîm ac yn rhan o adnodd defnyddiol a gwerthfawr iawn.*

*'Yn amlwg, roedd hi'n eithaf rhwystredig pan nad oedd yr atgyfeiriadau yn dod trwyddo ac nad oedden ni'n cael unrhyw fath o gysylltiadau wyneb yn wyneb. Wrth gwrs, nid oedd gennyh chi unrhyw reolaeth dros y sefyllfa ac nid oedd unrhyw beth y gallech fod wedi ei wneud yn wahanol. Dewis cysylltu dros y ffôn oedd yr unig ffordd ymlaen, ac roedd yn siomedig iawn pan na wnaeth rhyw lawer o'r rheini a allai fod wedi cael budd fanteisio ar hyn chwaith.*

*'Fy unig sylw, y gwnes i wedyn yn un o'r cyfarfodydd llywio, oedd y gallai e-bost o bryd i'w gilydd fod wedi helpu i'n cadw ni i gyd yn fwy*

*cysylltiedig, ond fe fuoch chi'n ddigon caredig i ystyried hyn a dilyn hyn i fyny â diweddariad i bawb.*

*'Er fy mod yn deall yr angen i ddilyn canllawiau priodol y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfrinachedd ac ati, roeddwn i'n teimlo'n rhwystredig nad oedd unrhyw ffordd o ganiatáu i ni fod yng nghyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol, sy'n ffordd dda iawn o godi proffil y prosiect a bod yno i'w hatgoffa'n gyson - neu o leiaf o wneud yn siŵr bod y prosiect yn cael ei grybwyll ym mhob cyfarfod i weld a ellid atgyfeirio rhywun.*

*'Gan fy mod wedi ymwneud â gofal diwedd oes gyda'm gwaith, rwy'n parhau i feddwl yr hoffwn i gyfrannu rhywbeth at ofal diwedd oes ac mae hyn yn fy ysgogi i wirfoddoli.'*

## **Dyfodol gwirfoddoli**

Mae rhai o'r rhaglenni gwaith cyfredol sydd ar waith isod yn seiliedig ar ein profiad a'n gwerthusiad o'r prosiect peilot:

- Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol y cais i ailgyflwyno gwirfoddolwyr clinigol ym mis Hydref 2021, ar sail rhai o ganfyddiadau'r prosiect peilot hwn. Gallodd y gwasanaeth gwirfoddol hwn gynorthwyo â phwysau'r gaeaf
- Ehangu'r gwirfoddolwyr wyneb yn wyneb mewn cartrefi gofal
- Disgrifiad rôl wedi'i greu ar gyfer cymorth ward gwirfoddol ar draws y Bwrdd Iechyd, sy'n canolbwyntio ar ymyriadau seiliedig ar weithgareddau. Mae hwn yn cyflwyno ffiniau clir ar gyfer y dasg a wneir gan y gwirfoddolwr ac yn cynorthwyo'r tîm ehangach i ddeall rôl y gwirfoddolwr
- Ymgyrch recriwtio i ddenu gwirfoddolwyr, sydd wedi dechrau, drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â PAVO, sy'n cynnwys rhaglen hyfforddi lawn, mae'r pynciau'n cynnwys hyfforddiant ar rolau penodol, e.e. RITA, rôl gwirfoddolwr ar ward ac annog a chyfathrebu ar sail gweithgareddau
- Proses asesu risg genedlaethol yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau bod y model yn cyflwyno cyn lleied â phosibl o risg i gleifion, gwirfoddolwyr neu aelodau ehangach y tîm
- Targedu myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol addysg bellach, gwirfoddolwyr cymunedol a phobl eraill sydd â diddordeb yn y cyfle

- Mae'n cefnogi'r fenter i ehangu'r mynediad i'r sector, drwy wirfoddoli a phrofiad gwaith
- Mae'n cefnogi'r pwysau ar y system, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan rydyn ni'n gweld bylchau mawr mewn staffio a mwy o alw

Ionawr 2022